CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD DDYDD GWENER 28 MAI 2004 YN NHŶ CARADOG, PLAS SANT ANDREAS, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. C Chapman
	Mr. David Carr

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd 1 Mawrth 2004

1.1 Cytunwyd ar y rhain.

2. Materion yn Codi

2.1 Adolygiad o ran o'r Ffin rhwng Cymunedau Blaenhonddan a Dyffryn Clydach ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

2.1.1 **Nodwyd** bod y Comisiwn yn parhau i ddisgwyl cyfarwyddyd gan y Cynulliad ynghylch yr adolygiad hwn.

2.2 Adolygiad o Ran o'r Ffin Rhwng Cymunedau Bracla A Choety Uchaf ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

2.2.1 **Nodwyd** bod y Comisiwn yn parhau i ddisgwyl cyfarwyddyd gan y Cynulliad ynghylch yr adolygiad hwn.

2.3 Cael Gwared ar Offer TG sy'n weddill i anghenion

2.3.1 **Nodwyd** bod caniatâd wedi'i gael gan Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad i gael gwared ar yr offer. Datganodd aelodau'r cyfarfod eu diolchgarwch i Mr Roberts am hwyluso cael gwared ar yr offer.

3. Adnewyddu Adeiladau (diweddariad llafar).

3.1 Ceisiwyd cael cyngor gan isadran noddi'r Comisiwn ynghylch y posibilrwydd o allu defnyddio un o gontractau yn ôl y gofyn y Cynulliad. Parhau i ddisgwyl am ateb i'r cais hwn oedd y Comisiwn.

3.2 **Nodwyd** y byddai'r ysgrifenyddiaeth yn dechrau paratoi manyleb o ran y gofynion ar gyfer yr adnewyddu.

4. Adolygiad Cwmllynfell – Sylwadau Pellach

4.1. Cais am Adolygiad - Gwauncaegurwen

4.1.1 **Nodwyd** bod llythyr wedi'i dderbyn wrth Mrs Winfield o blaid Ryddfrydol Cymru yn gwneud cais am i'r Comisiwn adolygu ardal Gwauncaegurwen mewn perthynas â chanfyddiadau cynigion y Comisiwn am Gwmllynfell a Chwm-twrch.

+

4.1.2 **Cytunwyd** i ohirio unrhyw benderfyniad neu ymgynghoriad mewn perthynas â'r cais hwn hyd oni wyddys beth fydd canlyniadau ystyriaethau'r Cynulliad ynghylch cynigion y Comisiwn am y ffin rhwng Siroedd Caerfyrddin a Phowys a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ardal Cymuned Cwmllynfell.

4.2 CBS Castell-nedd Port Talbot – ni chyhoeddwyd y sylwadau

4.2.1 Cafwyd llythyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn datgan nad oedd sylw a oeddynt wedi'i anfon i'r Comisiwn ynghylch 'Cwmllynfell' wedi cael ei gyhoeddi yng nghynigion terfynol y Comisiwn.

4.2.2 **Nodwyd** fod ateb wedi'i anfon at Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ymddiheuro am yr esgeulustra, ond yn esbonio bod y llythyr o dan sylw wedi cael ei ystyried gan y Comisiwn, ond na chafodd ei gynnwys yn yr adroddiad trwy ddamwain. Er i'r camgymeriad gael ei nodi, derbyniwyd bod y dystiolaeth a ddarparwyd yn ddigon sylweddol i effeithio ar ystyriaethau a chynigion terfynol y Comisiwn.

4.3. Cyngor Cymuned Cwmllynfell – y ffigurau anghywir ynghylch cynghorwyr

4.3.1 Roedd Clerc Cyngor Cymuned Cwmllynfell wedi ysgrifennu i gwyno am fod y ffigur anghywir ynghylch nifer y Cynghorwyr Cymunedol ar gyfer eu Cyngor wedi'i nodi yn y Cynigion Terfynol.

4.3.2 **Nodwyd** bod ateb wedi'i anfon at Glerc Cyngor Cymuned Cwmllynfell yn esbonio bod y ffigurau a ymddangosodd yn y Cynigion Terfynol wedi'u rhoi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Felly cyhoeddodd y Comisiwn y wybodaeth gan dybio eu bod wedi dod o ffynhonnell ddibynadwy.

4.4. Mr Page – Rhiwfawr

4.4.1 Ysgrifennodd Mr Page at y Comisiwn ynglŷn ag adolygiad a wardio Rhiwfawr a Chwmllynfell gan nodi pam y dylent gael eu trin yn unedau ar wahân. Gan fod y cynigion eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r Cynulliad, anfonwyd y llythyr i'r Cynulliad er mwyn iddo i'w ystyried.

4.5. Y Cynghorydd Llewellyn – effaith gronnol y cynigion

4.5.1 Roedd y Cynghorydd Llewellyn wedi sgrifennu at y Comisiwn gan dynnu sylw at y posibilrwydd pe bai'r Cynulliad yn mabwysiadu'r cynigion ynghylch Cwmllynfell, yna fe fyddai nifer bach o dai yn Rhiwfawr yn aros yng Nghastell-nedd Port Talbot a byddent yn hygyrch i Gastell-nedd Port Talbot ond trwy Bowys neu Sir Gaerfyrddin.

4.5.2 **Cytunwyd** y byddai hyn, pe derbynnid cynigion y Comisiwn, yn amgylchiad anffodus, a **chytunwyd** y dylid aros am ddoethineb y Cynulliad ynglŷn â'r mater hwn.

5. Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2003-04

5.1 **Cytunwyd** y byddai'r Cadeirydd yn mireinio cynnwys ei rhagair i'r Adroddiad.

5.2 **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi'i wneud yn glir yn ei ddogfennaeth ei fod yn fwy na pharod i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

5.3 **Nodwyd** bod Memorandwm cytundeb i ganiatáu i'r Ysgrifenyddiaeth gael ei rhannu â Chomisiwn Ffiniau (Seneddol) i Gymru wedi cael ei lofnodi gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y cyn Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Comisiwn Ffiniau Cymru/Comisiwn Ffiniau Lloegr. **Cytunwyd** y dylid diwygio'r Adroddiad Blynyddol i adlewyrchu hyn.

5.4 **Cytunwyd** hefyd y dylid cynnwys cyfraniad system "OSIRIS" y Cynulliad at effeithlonrwydd y Comisiwn yn yr adroddiad.

6. Adroddiad blynyddol ar Gynllun yr Iaith Gymraeg

6.1 Yn amodol ar fân ddiwygiadau, **cytunwyd** i fabwysiadu'r adroddiad ar Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn.

7. Adroddiad Ariannol – Diwedd y Flwyddyn 2003/04

7.1 **Nodwyd** a derbyniwyd yr adroddiad ariannol.

8. Unrhyw Fater Arall

8.1 Cyfarfod Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

8.1.1 **Nodwyd** bod y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod diweddaraf Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y Cynulliad.

8.1.2 **Nodwyd** ni ofynnwyd am sylwadau'r Cadeirydd er mai ffiniau oedd y testun. **Nodwyd hefyd** na chydnabuwyd presenoldeb y Cadeirydd yn y Pwyllgor.

8.1.3 **Nodwyd** gyda gofid, bod swyddogion yn y Cynulliad wedi teimlo bod angen anfon ymddiheuriad i'r Cadeirydd oherwydd na chydnabuwyd ei phresenoldeb yn y Pwyllgor gan ei aelodau.

8.1.4 **Cytunwyd** bod y Comisiwn yn adolygu cyflwyniad ei adroddiad blynyddol a chyfrifon i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

8.2 Arolygiad Gwasanaethau Cyhoeddus

8.2.1 **Nodwyd** bod Ann Jones AC wedi ysgrifennu at y Comisiwn i'w wahodd i gyfrannu tuag at broses o Arolygiadau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Awdurdodau Lleol Cymru.

8.2.2 **Cytunwyd** nad oedd y manylion a nodwyd ar gyfer yr arolygiad, o fewn cylch gorchwyl y Comisiwn ac y dylid gwrthod y cynnig.

8.3 Hyfforddiant Cyfrifeg

8.3.1 **Cytunwyd** i ymchwilio i ddarpariaeth hyfforddiant Cyfrifo gan y Llywodraeth ar gyfer Comisiynwyr er mwyn eu cynorthwyo i ddeall y Cyfrifon Blynyddol.

8.4 Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

8.4.1 **Nodwyd** y byddai Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru 2004 yn cael ei chynnal ddydd Gwener 10 Medi er na chafwyd gwybodaeth ynglŷn â'r man cyfarfod na'r agenda hyd yn hyn.

8.4.2 **Cytunwyd** pan fyddai'r man cyfarfod a'r agenda wedi'u trefnu, yna byddai'r Comisiwn yn penderfynu pa gynrychiolaeth a fyddai'n anfon i'r gynhadledd, os o gwbl.

9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

9.1 Cynhelir y cyfarfod llawn nesaf naill ai ar 9 neu 10 Medi 2004 gan ddibynnu ar y trefniadau ar gyfer Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru 2004.

9.2 **Nodwyd** bod Pwyllgor Archwilio wedi'i drefnu ar gyfer 17 Gorffennaf 2004, ac felly y gellid ymdrin ag unrhyw faterion brys ar y cyd â'r cyfarfod hwnnw.